IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 13 GORFFENNAF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Caerhirfryn a/ac Wood |

15 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

16 : CAIS AM AMRYWIAD AR DRWYDDED - RADYR TAP, STATION ROAD, CAERDYDD.

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Phil Newbold – Ymgeisydd a Chyd-gyfarwyddwr – Vale of Glamorgan Brewery Limited,<br>Sean Murphy – Cyfarwyddwr – Vale of Glamorgan Brewery Limited,<br>Rob Madison, Cyflogai Vale of Glamorgan Brewery Limited |
| Unigolion Eraill: | Alison Kitchener - Gwrthwynebydd<br>Sarah Welbourn - Gwrthwynebydd<br>Jamie Green – Preswylydd Lleol |

Y Cais

Daeth gais i law am Drwydded Safle – Grant, gan Vale of Glamorgan Brewery Limited mewn perthynas â Radyr Tap, 1b Station Road, Radur, Caerdydd, CF15 8AA.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

Cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle.

Darparu adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do)

Cynigir yr oriau agor canlynol:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 12:00 tan 23:30
Dydd Sul: 12:00 tan 22:30
Noswyl Nadolig: 12:00 tan 00:30
Nos Galan: 12:00 tan 01:00

I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

Cynnig alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn:  12:00 tan 23:00
Dydd Sul:  12:00 tan 22:00
Noswyl Nadolig:  12:00 tan 00:00
Nos Galan:  12:00 tan 00:30

Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do):

Noswyl Nadolig:  23:00 tan 23:00
Nos Galan:  23:00 tan 00:30

Cyn dechrau'r cyfarfod, roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Sylwadau gan y Parti â Diddordeb

Amlinellodd Sarah Welbourn ei gwrthwynebiadau i'r cais i'r Pwyllgor, sef; mae mewn ardal breswyl, bydd y safle yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion, gan gynnwys eiddo unigolion y tu ôl i'r safle a'r fflatiau gyferbyn.  Mynegodd ei phryderon ynghylch y sŵn fyddai'n dod o'r safle, yn enwedig yn hwyr yn y nos, a phetai'r cais yn cael ei gymeradwyo yna dylid rhoi cytundeb ar waith i leihau effaith y sŵn cymaint â phosibl. Roedd yn fodlon ar y ffaith bod amodau'r Heddlu wedi cael eu cytuno, ond roedd yn dal i bryderu am yr oriau trwyddedu ac yn credu bod 11.30 yn rhy hwyr am ardal mor breswyl ac y byddai'n well ganddi petai'r oriau'n newid i 10.30pm.  Mynegodd ei phryderon hefyd ynghylch unrhyw chwaraeon yn cael ei ddangos ar y teledu, ond dywedwyd wrthi na fyddai chwaraeon yn cael eu dangos yn rheolaidd, dim ond digwyddiadau chwaraeon mawr; pwysleisiodd y swyddog trwyddedu nad oedd hwn yn weithgaredd trwyddedadwy, ac nid oedd cerddoriaeth tan 11.00pm yn weithgaredd trwyddedadwy ychwaith. Roedd y drwydded am werthu alcohol ar ac oddi ar y safle a cherddoriaeth wedi'i recordio yn unig ar Noswyl Nadolig a Nos Galan.

Dywedodd Alison Kitchener wrth y Pwyllgor ei gwrthwynebiadau i'r cais, sef; roedd tafarn yn ardal Radur/Pentre-poeth eisoes ac roedd canol y ddinas yn hawdd ei gyrraedd ar drên lle mae amrywiaeth o dafarndai a bariau eraill.  Ychwanegodd fod gan Radur Glybiau Tenis a Golff hefyd sy'n gwerthu alcohol.  Roedd hi'n pryderu am ormod o sŵn o ystyried bod plant yn byw yn yr ardal breswyl gerllaw'r safle. Dywedodd y dylid ystyried y cais yn y cyd-destun cywir a bod y bwyty yn Station Road gan amlaf yn cau erbyn 10.30pm, roedd ganddynt bolisi blaen y tŷ da, yn cadw'r sŵn ar y lefel isaf bosibl ac nid oedd unrhyw broblemau wedi dod i law.

Pwysleisiodd na fyddai am i unrhyw weithgaredd ddigwydd yng nghefn y safle o gwbl gan fod cynllun yr eiddo yn golygu ei fod yn creu effaith amffitheatr a bydd unrhyw sŵn gan staff, poteli, biniau ac ysmygwyr yn uwch. Pwysleisiodd y byddai am i'r holl ddrysau/ffenestri yng nghefn y safle fod ar gau ar bob adeg.   Ystyriodd hefyd y byddai 10.30pm yn amser mwy priodol. Roedd Ms Kitchener yn pryderu a fyddai modd i bobl sy'n ysmygu y tu allan i flaen y safle yfed hefyd a dywedwyd wrthi y byddai unrhyw werthiannau oddi ar y safle mewn ardaloedd caeedig oni bai eu bod yn eistedd.  Dywedodd Ms Kitchener, o ystyried y bydd y safle ar agor drwy'r dydd ac y bydd plant yn cerdded heibio yn ystod y dydd, nid yw'r safle yn addas ar gyfer yr ardal. Ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol cael cytundeb rhwng y safle a'r preswylwyr, ac os caiff ei dorri, yna gellir ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor. Dywedwyd wrthi

nad oedd yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor, ond os oedd unrhyw broblemau/materion yn codi o ran y safle, yna gellir galw am adolygiad o'r drwydded.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau. Dywedodd Jamie Green fod 103 o sylwadau wedi dod i law yn cefnogi'r cais, felly roedd pobl yn yr ardal am i'r safle agor. Ychwanegodd fod gan y bwyty yn Station Road drwydded tan 12pm ac nid oedd unrhyw broblemau wedi codi.

Gofynnodd y Cynghorydd Lancaster a oedd unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu wedi cael eu cynnal â'r cymuned. Dywedodd Ms Welbourn nad oedd hynny wedi digwydd, ac y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael cyfarfod cyn y Pwyllgor. Ychwanegodd Ms Kitchener ei bod wedi cael anhawster cysylltu â'r ymgeisydd ac nad oedd wedi ateb galwadau ffôn. Pwysleisiodd yr ymgeisydd fod problemau wedi codi o ran y llinell ffôn sydd bellach wedi cael eu datrys. Dywedodd Ms Kitchener y byddai gan y safle reolwr, ac nid unrhyw un o'r gymuned fyddai'r unigolyn hwnnw. Dywedodd y swyddog trwyddedu y byddai'r rheolwr yn Oruchwylydd Safleoedd Dynodedig ac yn ddeiliad trwydded bersonol.

Siaradodd Jamie Green o flaen y Pwyllgor gan ddangos ei gefnogaeth i'r cais. Dywedodd ei fod wedi arwain ymgyrch i ddod â thafarn i'r pentref am yr 8 mlynedd ddiwethaf. Roedd wedi ymgysylltu â phreswylwyr cefnogol ac anghefnogol ac nid oedd wedi cael unrhyw drafferth yn cyfathrebu â'r ymgeisydd. Dywedodd fod y Clybiau Tenis a Golff ar gyfer aelodau yn unig ac roedd cod gwisg iddynt. Ychwanegodd y byddai cyfyngu ar y drwydded tan 10.30pm yn gyfle wedi'i golli. Dywedodd fod hwn yn gyfle i'r gymuned ddod ynghyd, bod canolfan yn tyfu ar Station Road. Roedd hwn yn gyfle i wneud Radur yn lle bywiog i'r holl genedlaethau ac yn fater pwysig ac arwyddocaol i'r trigolion lleol.

<u>Sylwadau Unigolion Eraill</u>

Dywedodd yr ymgeisydd wrth y Pwyllgor ei fod yn deall pryderon y preswylwyr yn llawn, ond ei fod yn rhedeg nifer o safleoedd ledled y Ddinas ers 12 mlynedd, ac wedi rhoi polisïau sŵn a rheoli gwastraff ar waith. Ychwanegodd ei fod yn gwneud synnwyr busnes cael cefnogaeth y gymuned. Ychwanegodd yr ymgeisydd fod ganddo dros 100 o staff, yn rhedeg safleoedd mwy o faint mewn ardaloedd preswyl ac heb gael unrhyw drafferthion. Ychwanegodd nad oedd yn gweini pobl feddw, eu bod yn weithwyr proffesiynol a phrofiadol a fyddai'n gweithio o fewn amodau'r drwydded petai'n cael ei chymeradwyo ac yn gweithio gyda'r gymuned, ond y byddai trwydded gynharach yn rhy gyfyng.

Dywedodd yr ymgeisydd na fyddai ysmygwyr yn cael mynd â diodydd y tu allan oni bai eu bod yn eistedd. Byddai ond 6/8 sedd y tu allan. Byddai arwydd yn cael ei ddangos yn gofyn i gwsmeriaid adael y safle'n dawel, ni fyddai ardd gwrw na mynediad i gwsmeriaid yng nghefn y safle. Ychwanegwyd y byddent yn hapus i sicrhau bod y biniau ond yn cael eu gwagio rhwng 10am a 12pm – y tu allan i oriau masnachu. Eglurodd yr ymgeisydd na fyddai unrhyw gynigion 2 ddiod am bris 1, y byddant ond yn gweini cynnyrch premiwm, na fyddai unrhyw gerddoriaeth fyw, na fyddant yn dangos digwyddiadau chwaraeon rheolaidd ac y bydd unrhyw ddiodydd a werthir oddi ar y safle yn cael eu gwneud â'r nod o'u cymryd adref neu fel rhodd ac y byddant wedi'u selio. Dywedodd yr ymgeisydd eu bod wedi hysbysu Cymdeithas a Chyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth sydd wedi bod yn gefnogol. Nodwyd yr

oedd tafarn ar Station Road yn flaenorol o'r enw'r Radyr Arms, ond cafodd ei throi'n fflatiau; ar hyn o bryd nid oes unrhyw beth tebyg i'r cais hwn yn Radur. Wrth holi'r ymgeisydd ynghylch y drwydded 11.00pm, dywedodd fod hyn yn normal, nid oedd unrhyw dafarndai eraill yn cau am 10.30pm, roedd yr oriau trwyddedu arferol yn gwasanaethu cwsmeriaid sy'n gweithio'n hwyr neu sy'n dewis mynd i'r dafarn yn hwyrach yn y nos.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar yr adeg hon. Gofynnodd y Cynghorydd Wood sut fyddai'r ymgeisydd yn sicrhau na fyddai ysmygwyr yn mynd â'u diodydd y tu allan. Dywedwyd y byddai staff yn dweud wrthynt, byddai Teledu Cylch Cyfyng ac arwyddion, a bod y safle mor fach y gallai staff y bar leisio'r neges o'r bar tuag at flaen yr eiddo. Roedd hefyd yn amod i'r drwydded. Nododd y Cynghorydd Wood y cyfeiriad at '1 rhybudd ac allan' a gofynnodd sut fyddai hyn yn gweithio yn ymarferol. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn rhan o'r cynllun gwyliadwriaeth tafarn, byddai'n rhoi gwybod i'r heddlu, byddai cofrestr fewnol ac y byddai tîm bach o staff yn y safle felly byddent yn cyfathrebu ymysg ei gilydd. Eglurodd yr ymgeisydd y byddai Rheolwr, Rheolwr Cynorthwyol ac ychydig o staff rhan amser yn gweithio yn y dafarn a'r Rheolwr bydd y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig. Gan amlaf, byddai'r un 1 neu 2 aelod o staff yn gweithio ar y safle.

Dywedodd y Cynghorydd Lancaster ei fod yn falch o glywed y byddai'r biniau yn cael eu gwagio rhwng 10am a 12pm. Dywedodd yr ymgeisydd y byddent hefyd yn rhoi ffens o amgylch yr ardal finiau y tu cefn i'r safle. Ceisiodd y Cynghorydd Lancaster eglurhad ynghylch yr ardal eistedd y tu allan a dywedwyd y bydd yn 2 fetr, ac y byddai ond 6/8 sedd, ni fydd unrhyw wresogyddion na chanopïau.

Nododd y Cynghorydd Lancaster y cyfeiriad at 'Dafarn Gymunedol' a gofynnodd am fwy o wybodaeth am hyn. Dywedodd yr ymgeisydd y byddai'n dymuno cynnal noson gymunedol reolaidd, y byddai'n dymuno gwahodd clybiau lleol a chlybiau cysylltiol hefyd, megis y Clwb Hanes, i ddefnyddio'r safle. Roedd yn gobeithio y bydd y gymuned yn awyddus iawn i'w ddefnyddio. Dywedodd Ms Kitchener ei bod yn gobeithio y byddai nosweithiau o'r fath yn dod i ben ar amser rhesymol a mynegodd pryderon pellach ynghylch parcio.

<u>Crynhoi</u>

Ystyriodd Ms Welbourn ei fod wedi bod yn gyfarfod defnyddiol, roedd yn falch bod amodau'r Heddlu wedi cael eu cytuno. Roedd yn hapus eu bod wedi cytuno i wagio'r biniau rhwng 10am a 12pm yn unig; na fyddai unrhyw wresogyddion ac ni fyddai unrhyw ganopïau. Roedd hefyd yn hapus na chaniateir i bobl yfed ar eu traed y tu allan i'r safle, ond roedd hi'n dal i bryderu bod yr oriau trwyddedu mor hwyr â 11.30pm.

PENDERFYNWYD:

Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, y bydd yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr amodau ychwanegol ynghylch gwagio'r biniau rhwng 10am a 12pm yn unig a chyfuno Amodau'r Heddlu hefyd ynghylch yfed y tu allan i'r canlynol: *'Bydd gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ond yn digwydd mewn cynwysyddion wedi'u selio oni bai bod y bobl sy'n prynu yn eistedd ar fyrddau a chadeiriau dynodedig sy'n gysylltiedig â'r safle'.*

17 : HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO - CARAFANAU PONTCANNA (EISTEDDFOD)

Tynnwyd y gwrthwynebiad yn ôl.

18 : HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO - THE LAZY LEEK, 183A KINGS ROAD

Tynnwyd y gwrthwynebiad yn ôl.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm